

RHAGLEN TRAWSNEWID

GWASANAETHAU CYMUNEDOL



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Cyngor
denbighshire
County Council



Awst 2021

Mae'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol yn brosiect partneriaeth ar y cyd rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a phartneriaid trydydd sector.

Diben y Rhaglen Trawsnewid Cymunedol yw cyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymunedol sy'n gynaliadwy ac yn integredig. Y weledigaeth yw creu model integredig o iechyd a gofal cymdeithasol yn seiliedig ar leoliad i ddarparu gwasanaethau di-dor i bobl Conwy a Sir Ddinbych.

THEMÂU'R RHAGLEN

Cliciwch ar yr eicon perthnasol isod i weld y newyddion diweddaraf am y thema honno

Rheolaeth a llywodraeth leol

Systemau Integredig a Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn:

- ▼ SIPPS
- ▼ ICAN
- ▼ D2RA
- ▼ WSA

Gweithlu a Systemau Integredig

Timau Adnoddau Cymunedol



Prosiectau a Ariennir gan y Gronfa Gofal Integredig (CGI) ac Archwiliadau Achos

Cyfathrebu, Ymgynghori ac Ymgysylltu

Camau nesaf y rhaglen

Dadansoddiad System Lawn (WSA)

- Cydgrynhoi adborth a gwersi a ddysgwyd o weithdai mapio systemau mewn un sesiwn ddilynol, a fydd yn helpu i nodi meysydd trawsnewid i ganolbwyntio arnynt;
- Datblygu'n barhaus 'camau dechreuol' Dangosfwrdd Gwybodaeth Busnes sy'n gweithio i ddeall y system gyfan yn well, er mwyn gwella'r broses o wneud penderfyniadau wrth gyfarwyddo adnoddau prin;
- Cynhyrchu adroddiad 'Cynllun ar gyfer Newid' – drafft cyntaf;
- Penderfynu ar y camau nesaf ar gyfer y gwaith hwn, pan fydd Grant Thornton yn camu yn ôl;
- Prosiect data maint cywir ar gyfer Gogledd Cymru: Mae'r model terfynol diweddaraf bellach wedi cael ei wirio gan Uned Gyflawni Llywodraeth Cymru – a bydd yn cael ei gyflwyno bellach i'r Bwrdd Gwasanaeth Trawsnewid Cymunedol am sylwadau terfynol.

Prosiectau a Ariennir gan y Gronfa Gofal Integredig (CGI) ac Archwiliadau Achos

- Cwblhau rhestr lawn o brosiectau a ariennir gan grant i'w gwerthuso, gan gynnwys prosiectau nad ydynt yn CGI;
- Adolygiad bwrdd gwaith o gynigion prosiectau ac yna deall ble mae'r prosiectau ar hyn o bryd yn erbyn y cynigion gwreiddiol a'r deillannau ar gyfer ddinasyddion;
- Adroddiad gwerthuso drafft;
- Bydd pob prosiect CGI yng Nghonwy a Dinbych yn cael eu gwerthuso;
- Fframwaith gwerthuso a monitro lleol – i gynorthwyo gyda chynigion prosiectau yn y dyfodol.

Cyfathrebu, Ymgynghori ac Ymgysylltu

- Parhau i weithio'n agos gyda Grant Thornton i ymgysylltu efo dinasyddion er mwyn dysgu am eu profiadau o wasanaethau Gofal Cymdeithasol a Iechyd – efallai y bydd y gwaith yma yn ymestyn tu hwnt i'r dyddiad cwblhau gwreiddiol o fis Medi 2021;
- Cwblhau'r archwiliadau achos Iechyd Meddwl a Phobl Hŷn ac eiddilwch;
- Bydd y gwaith o gyflwyno'r 'Seamless Integrated Pathways for People' (SIPPS) a 'Results Based Accountability' (RBA) yn cael ei wneud yn rhanbarthol gyda chefnogaeth Jo Flannery, mynychodd Andrew yr hyfforddiant ar 21 Gorffennaf i weld sut fydda ni'n gallu cefnogi'r gwaith hwn wrth symud ymlaen;
- Cynnydd gyda gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen ICAN/ Llyw-wyr Cymunedol gan gynnwys holiadur ar gyfer Darparwyr Presgripsiynau Cymdeithasol yng Nghonwy a Sir Dinbych i fapio beth sydd ar gael. Creu cyswllt gyda'r Arolwg Cenedlaethol ar gyfer darparwyr Presgripsiynau Cymdeithasol a weir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Cynnal cynnydd ar lefel leol ar draws pob llwybr 'Discharge to Recover then Assess' (D2RA) sy'n effeithio ar reolaeth gyffredinol a gwella llif rhyddhau cleifion;
- Parhau i gydweithio â'r Timau Adnoddau Cymunedol (TAC) a darparu cefnogaeth iddynt, gan gynnwys parhau â chyfarfodydd ar gyfer Grŵp Ffocws y TAC.

Timau Adnoddau Cymunedol (TAC)

- Mae yna 5 Swyddi Gwag Arweinydd TAC yng Nghonwy a hefyd mae nhw'n ceisio recriwtio i Swyddi Cyswllt TAC. Nid oedd y dull newydd o gyflogi un Arweinydd TAC llawn amser yn llwyddiannus a felly mae trafodaethau yn parhau efo Rheolwyr Gwasanaethau yn CSBC i drafod y ffordd ymlaen.
- Archwilio'r syniad o gylchdroi Therapyddion Galwedigaethol (ThG) Band 5 – Mae gwaith wedi cynnyddu ar draws Conwy a Dinbych a maent yn bwriadu cael cyllid mewn lle ar gyfer lleoli Therapyddion Galwedigaethol Band 5 BIPBC mewn gofal cymdeithasol yn y flwyddyn newydd.

Unrhyw awgrymiadau?

Byddem yn gwerthfawrogi unrhyw adborth neu syniadau am unrhyw bethau yr hoffech i ni ganolbwyntio arnynt yn y newyddlen yn y dyfodol.

Cysylltwch â ni [yma](#)

Rheolaeth a llywodraeth leol

Datblygu ardaloedd lleol iechyd a gofal cymdeithasol integredig

Pennu Cyfeiriad Gorllewin Conwy – Opsiynau Cyfreithiol

Sefydlwyd y prosiect pennu cyfeiriad er mwyn ystyried yr endidau cyfreithiol y gellid eu defnyddio i gefnogi integreiddio ymhellach ar draws sefydliadau:

- Cafodd 4 model eu cyflwyno a'u hadolygu;
- Y canlyniad oedd y gallai pob un o'r 4 model fod yn briodol ar gyfer yr ardaloedd lleol;
- Mae'r gwaith yn argymhell bod yr ardaloedd lleol yn ailddatgan eu gweledigaeth a'u disgrifiad o integreiddio a datblygu ymarferion gwaith ymhellach i nodi'r meysydd penodol lle gellid integreiddio ymhellach.
- Mae gwaith i ddatblygu prosiect sy'n cydweithio ag ardal leol Gorllewin Conwy yn cael ei ystyried fel prawf ar gyfer datblygu strwythur arwain a rheoli.

Am ragor o wybodaeth am y thema hon, cysylltwch â:

Alan Hughes ar 01492 550403 neu 07525 168701 neu e-bostiwch alanhughes@ateiconsulting.com

DYCHWELYD I BEN Y DUDALEN

Systemau Integredig a Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Dadansoddiad System Gyfan (o iechyd a gofal cymdeithasol)

BETH SYDD WEDI CAEL EI WNEUD?

- Cytunwyd ar feysydd gwasanaeth / cohortau allweddol i ganolbwyntio arnynt: Iechyd Meddwl (IM), Pobl Hŷn (PH) a Phlant a Phobl Ifanc (PaPhI);
- Cytunwyd ar ddulliau o gasglu, dadansoddi a delweddu'r data – ar ffurf mapiau gwres a mapiau llif (ffordd o wneud data yn fwy gweladwy) a Llwybr Llif Gofal;
- Drafftwyd mapiau Llwybrau Llif Gofal IM – o'r atgyfeirio gwreiddiol i'r canlyniadau terfynol;
- Drafftwyd mapiau gwres IM, gan gynnwys metrigau arfaethedig;
- Mae'r gweithdai cyntaf wedi cymeryd lle ar gyfer PH a PaPhI;
- Mae data yn dal i gael ei groesgyfeirio, ei ddilysu a'i ddadansoddi yn barod i'w gynnwys a'i fodelu yn y Dangosfwrdd Gwybodaeth Busnes (teclyn delweddi) - sy'n cael ei baratoi i'w drosglwyddo gan Grant Thornton i Dîm Trawsnewid y Gwasanaethau Cymunedol;
- 'Data Protection Impact Assessment' wedi'i newid i roi mynediad i sefydliadau partner (BIPBC/CSDD/CBSC) at y data gwreiddiol a gyflwynwyd i Grant Thornton;
- Cytunwyd ar y cynllun i gloi.

PA WAHANIAETH A WNAETH HYN?

- Wedi caniatáu i'r prosiect cymhleth hwn wneud cynnydd gyda rhywfaint o ffocws a phendrantrwydd o ran beth sy'n rhaid ei gwblhau cyn y gall Grant Thornton gymryd cam yn ôl;
- Taflwyd goleuni ar gymhlethdod ymgymryd â gwaith o'r fath;
- Helpwyd i siapio datblygiad y Dangosfwrdd Gwybodaeth Busnes.

BETH YW'R HERIAU SYDD I DDOD?

- Cymhlethdod dull dadansoddi system gyfan o weithio a chanolbwyntio ar lwybrau gofal blaenoriaeth, yn ogystal â chasglu 'digon' o ddata allweddol i helpu i wella gweithio integredig, llwybrau llif gofal a chanlyniadau;
- Sicrhau bod cynnal momentwm ar ôl y gwaith hwn;
- Cynnal a datblygu/gwella'r Dangosfwrdd Gwybodaeth Busnes;
- Adnoddau i hwyluso unrhyw argymhellion posib yn y 'Cynllun ar gyfer Newid'.

BETH NESAF?

- Cydgrynhoi adborth a gwersi a ddysgwyd o weithdai mapio systemau mewn un sesiwn ddilynol, a fydd yn helpu i nodi meysydd trawsnewidiol i ganolbwyntio arnynt;
- Datblygu'n barhaus 'camau dechreuol' Dangosfwrdd Gwybodaeth Busnes sy'n gweithio i ddeall y system gyfan yn well, er mwyn gwella'r broses o wneud penderfyniadau wrth gyfarwyddo adnoddau prin;
- Cynhyrchu adroddiad 'Cynllun ar gyfer Newid' – drafft cyntaf;
- Penderfynu ar y camau nesaf ar gyfer y gwaith, pan fydd Grant Thornton yn camu yn ôl;
- Prosiect data maint cywir ar gyfer Gogledd Cymru: Mae'r model terfynol diweddaraf bellach wedi cael ei wirio gan Uned Gyflawni Llywodraeth Cymru – a bydd nawr yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gwasanaeth Trawsnewid Cymunedol am sylwadau terfynol.

Am ragor o wybodaeth am y thema hon, cysylltwch â: David Vaughan ar 07557 312227 neu trwy e-bostio david.vaughan@wales.nhs.uk

DYCHWELYD I BEN Y DUDALEN

Prosiectau a Ariennir gan y Gronfa Gofal Integredig ac Archwiliadau Achos

Gwerthusiad lleol o brosiectau a ariennir gan grantiau

BETH SYDD WEDI CAEL EI WNEUD?

- Lluniwyd datganiad trosolwg prosiect, a chytunwyd arno;
- Drafftwyd fframwaith gwerthuso, gan gynnwys methodoleg arfaethedig;
- Cadarnhawyd rhestr prosiect byw refeniw CGI;
- Rhannwyd y Datganiad Trosolwg Prosiect a'r fframwaith gyda chydweithwyr CGI rhanbarthol.
- Lluniwyd methodoleg a profforma Archwilio Achosion a chawsant eu cadarnhau. Cwblhawyd yr archwiliad achos cyntaf ar gyfer y llwybr llif anadlol. Mae gwaith ar y trywydd iawn i gwblhau'r archwiliadau llwybrau llif lechyd Meddwl a Phobl Hŷn eiddilrwydd erbyn diwedd mis Awst.
- Sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen i arwain ar y gwaith yma. Mae'r dull gweithredu wedi'i gytuno gan Fforwm Conwy a Tîm Phartneriaeth Sir Ddinbych.

PA WAHANIAETH A WNAETH HYN?

- Mae'r ffrwd waith yn y cam cynllunio a chychwynnol o hyd.

BETH YW'R HERIAU SYDD I DDOD?

- Deall yr effeithiau a chanlyniadau ehangach y prosiectau, a fydd yn gofyn am fewnbwn gan arweinwyr/staff prosiect prysur (oherwydd COVID);
- Dod a'r amrywiol werthusiadau o'r prosiectau a ariennir gan grant at eu gilydd.

BETH NESAF?

- Cwblhau rhestr lawn o brosiectau a ariennir gan grant i'w gwerthuso, gan gynnwys prosiectau nad ydynt yn CGI;
- Cychwyn prosiectau, gan ddechrau gydag adolygiad bwrdd gwaith o gynigion prosiectau, ac yna deall ble mae'r prosiectau ar hyn o bryd ynglŷn a cyflawni canlyniadau;
- Adroddiad gwerthuso drafft;
- Fframwaith gwerthuso a monitro lleol – i gynorthwyo gyda chynigion prosiectau yn y dyfodol.

Am ragor o wybodaeth am y thema hon, cysylltwch â:

Alan Hughes ar 01492 550403 neu 07525 168701 neu e-bostiwrch alanhughes@ateiconsulting.com

DYCHWELYD I BEN Y DUDALEN

Cyfathrebu, Ymgynghori ac Ymgysylltu

Effeithiolrwydd ffyrdd cyfredol o weithio

BETH SYDD WEDI CAEL EI WNEUD? PA WAHANIAETH A WNAETH HYN?

- Adroddiad triogli ar gael gan GT sy'n tynnu'r themâu allweddol allan o ymgynghoriadau cenedlaethol, asesiadau anghenion ardaloedd lleol ac adolygiad cyflym o'r asesiad o anghenion y boblogaeth – bron â'i gwblhau. Mi fydd yr adroddiad yma yn adnabod bylchau mewn gwaith ymgysylltu ag ymgynghori a mi fydd yn cael ei rannu unwaith y bydd o wedi cael ei gymeradwyo gan y Grŵp Cyngori yn mis Awst 2021.
- **Roedd 12 gweithdai cydgynhyrchu** wedi eu cynllunio ar gyfer mis Mai – Mehefin ar gyfer gwahanol Ddefnyddwyr Gwasanaeth ond ni wnaethon nhw barhau oherwydd cyn lleiad o bobl yn cofrestru. Cynhaliwyd cyfweliadau 1-i-1 gyda phobl o wahanol gohortau oedd wedi cofrestru ar gyfer y gweithdai er mwyn canfod mwy am eu profiad o iechyd a gofal cymdeithasol. Hyd yma mae 2 weithdy wedi'u cynnal, 3 cyfweliad 1-i-1 ar wahân, a rhagor yn yr arfaeth. Mae ymdrechion i nodi mwy o bobl i'w cyfweld / trafodaethau grwpiau bach posibl gydag ymadawyr gofal, pobl ag anghenion cymorth iechyd meddwl a pobl hyn sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Mi fydd yr adroddiad terfynol o'r adroddiad ymgysylltu yn cael ei rannu efo'r cyfranogwyr cyn ei rannu mwy eang ar ôl mis Medi 2021.
- Mae'r gwaith yn parhau ar gyfer y ffordd ymlaen efo'r sesiynau **Cynulliad Dinasyddion** er bod cyfraddau cofrestru yn uwch ar gyfer y Cynulliad Dinasyddion na'r gweithdai, roedd llawer o'r rheiny a gofrestrodd yn 'weithwyr proffesiynol' yn hytrach na dinasyddion. Er mwyn peidio methu allan ar y profiad a'r gwybodaeth gan y dinasyddion yma mae dau gweithdy cyfranogi yn cael eu cynnal mis Awst efo'r ffocws ar bobol efo heriau Iechyd Meddwl a Pobl Hyn. Bydd penderfyniad yn cael ei wneud erbyn mis Medi 2021 os y byddan yn parhau efo'r Cynulliad Dinasyddion.
- **Strategaeth Gyfathrebu**
 - Mae strategaeth gyfathrebu ar gyfer Rhaglen Drawsnewid Ardal Ganolog wedi'i ddatblygu;
 - Mae Cynllun Gweithredu Cyfathrebu WS4 wedi'i ddatblygu ac mae'n ddogfen weithio;
 - Cafodd y cyntaf o'r bwletinâu hyn ei rannu ar yr wythnos yn dechrau 12 Ebrill.
- **Fframwaith ar gyfer Gofal**
 - Mae'r tîm wedi cwblhau hyfforddiant RBA a SiPPS rhagarweiniol ond mae'r cyfrifoldeb o arwain y gwaith yma yn eistedd efo'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol;
 - Gweithio gyda GT i nodi llwybrau a gyflwynwyd a pha rai a ddewisir i ddechrau archwiliadau achos ar gyfer cyflyrau anadlol, iechyd meddwl oedolion o oedran gweithio, pobl hyn ac eiddilrwydd;
 - Mae Andrew yn parhau i weithio ar ddadansoddi Llwybr Atal a Rheoli Cwmpadau Preswylwyr Cymunedol Gogledd Cymru ac mae wedi nodi mwy o gyfleoedd i integreiddio'r Llwybr gyda gofal cymdeithasol a dull integredig o ddarparu gwasanaethau. Mae canlyniadau a mesuryddion perfformiad wedi'u cytuno ar gyfer y Llwybr Cwmpadau;
 - Cytunwyd y dylid defnyddio'r Fframwaith SiPPS/IPOP i helpu i siapio gwasanaethau cymunedol ar draws y system gyfan. I gefnogi'r gwaith hwn, mae Tracey Williams o'r Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol, wedi cytuno darparu hyfforddiant rhagarweiniol i helpu Timau Ardal i ddechrau gweithredu'r dull.

➤ **Grŵp Tasg a Gorffen Cysylltydd ICAN a Llywiwr Cymunedol**

Rôl Cysylltydd ICAN a Llywiwr Cymunedol: Trafodwyd y mater ym mhrosiect pennu cyfeiriad Gorllewin Conwy gan arwain at ddod â nifer o ddarnau cysylltiedig, ond cwbl wahanol, o waith a gynlluniwyd ynghyd mewn un grŵp gorchwyl.

- Mae 4 cyfarfod y Grŵp Tasg a Gorffen wedi'u cynnal;
- Mae is-grwpiau yn cael eu ffurfio i edrych ar wahanol dasgau, mae un grŵp wedi cyfarfod a chreu holiadur ar gyfer darparwyr Presgripsiynau Cymdeithasol a darparwyr perthnasol eraill yng Nghonwy a Sir Ddinbych. Caiff hwn ei rannu erbyn diwedd mis Gorffennaf / dechrau Awst;
- Mae Rheolwyr Prosiect ac Arweinwyr Proffesiynol ar gyfer Therapiau yn cydweithio'n agos â'r Arweinydd Clinigol ar gyfer menter 'swyddi iechyd meddwl gofal sylfaenol Therapi Galwedigaethol'. Nod y fenter yw cynnig cymorth cyswllt cyntaf arbenigol a rhagweithiol i'r rheiny sy'n wynebu heriau Iechyd Meddwl a/neu drallod emosiynol ar lefel meddyg teulu;
- Craidd y cynllun yw recriwtio 14 o ymarferwyr band 7 i weithio ar lefel clwstwr, un ym mhob clwstwr BIPBC. Bydd gan yr Ymarferwyr hyn swyddogaeth i asesu unigolion sy'n dod atynt, gan gynnig rhywfaint o gymorth therapiwtig neu hwyluso ymyrraeth feddygol / atgyfeirio ymlaen.

➤ **Rhyddhau i Adfer Yna Asesu (D2RA)**

Ar lefel leol mae cynnydd yn cael ei wneud ar draws pob llwybr D2RA sy'n effeithio ar reolaeth gyffredinol a gwella llif rhyddhau cleifion; Llwybrau D2RA 2-4:

- **Llwybr 2:** Therapiau: symud adnoddau i gefnogi datrys problemau wrth y drws ffrynt. Unigolion yn cael eu gweld yn gynt a'u trosglwyddo i wardiau gyda chynllun gofal mewn lle. Mae hwn yn wasanaeth 7 diwrnod. Atgyfeiriadau uniongyrchol a arweinir gan therapi trwodd i ailalluogi, cyfarfod misol wedi'i sefydlu. Adroddiad monitro parhaus wedi'i ddarparu i grŵp Llwybrau rhyddhau ynglŷn â'r cynnydd a wneir gan arweinwyr ThG; mae cynnig yn cael ei ystyried i Un Pwynt Mynediad (UPM) gynorthwyo i ryddhau cleifion o ysbytai. weithio gyda ThG i hwyluso cynlluniau rhyddhau cleifion yn gynnar i'r rheiny ar lwybr 2; system atgyfeirio uniongyrchol trwodd i ailalluogi yn ddull cyson ledled Conwy a Sir Ddinbych. Cynllun peilot wedi'i gytuno i ddefnyddio iPad i hwyluso rhyddhau cleifion. Cysylltu'n ddigidol â'r claf a'i Therpaydd Galwedigaethol / Nyrs Gyswllt Rhyddhau fel bod yr Ymgynghorydd UPM yn gallu cynnal y sgwrs 'Beth sy'n Bwysig' gydag iPad wrth wely'r claf. Byddai'r sgwrs a'r camau gweithredu a gytunir yn cael eu hychwanegu at system yr ALL ar yr un diwrnod a byddai copi o'r sgwrs yn cael ei hanfon trwy e-bost at y ward cyn pen 24 awr. Cytunwyd defnyddio un ward yn Ysbyty Glan Clwyd ar gyfer cynllun peilot i ddechrau;
- **Llwybr 3:** Cysylltiadau i TACau: Mae mwyafrif yr atgyfeiriadau yn cael eu canoli trwy UPM ar draws Conwy a Sir Ddinbych; mae atgyfeiriadau newydd yn cael eu brysbennu yn ddyddiol o fewn TACau; mae gan bob TAC broses debyg. Mae rhai atgyfeiriadau yn cael eu derbyn yn uniongyrchol i wasanaeth a therapiau Nyrsio Ardal; cyfarfodydd wythnosol achosion cymhleth / gweithredol wedi'u sefydlu. Ail-sefydlu fforwm TAC a fydd yn darparu cyfle i adolygu a gwerthuso cynnydd hyd yma. Gwasanaethau gofal canolraddol / camu i lawr: Unigolion yn cael eu trafod yn ddyddiol ar rowndiau'r bwrdd a sicrhau parhad y nodau a gynlluniwyd. Mae proses atgyfeirio wedi'i hadolygu a bydd siwrneiau unigolion yn cael eu monitro trwy'r Biwro Cartref yn Gyntaf. Gweithdy wedi'i gynnal gydag Uned Gyflawni y GIG ar 28 Ebrill ynglŷn â ffrwd waith gofal canolraddol; caiff data ei gasglu trwy dîm perfformiad BIPBC fel rhan o ffrwd waith genedlaethol. Mae oddeutu 30 o Weithwyr Cefnogi Iechyd a Gofal ychwanegol yn gweithio ar draws TACau i hwyluso rhyddhau cleifion yn amserol a chefnogi gwasanaethau Nyrsio Ardal i gefnogi achosion cymhleth gan gynnwys gofal lliniarol; yn cael ei werthuso ar hyn o bryd mewn perthynas ag effaith/buddion fel ffrwd gyllido byrdymor. Tîm trawsnewid yn cefnogi gwerthuso Gweithwyr Cefnogi Iechyd a Gofal (HCSW) a gwasanaethau Nyrsio Ardal; hefyd yn aros am adolygiad o'r prosiect CGI ar gyfer HCSW ac effaith ar lwybrau D2RA. Is-grŵp wedi'i sefydlu i adolygu gweithgareddau sy'n ymwneud â HCSW yn hwyluso data gan Malinko (system amserlen Nyrsio Ardal).

- **Llwybr 4** – Gwell system mewn lle i hwyluso rhyddhau cleifion yn ôl i leoliadau cartrefi gofal; proses rhestr gyfeirio CHC wedi'i gweithredu; siart llif mewn lle. Atgyfeiriadau wedi'u hwyluso trwy TACau ar gyfer gwasanaethau gofal lliniarol. Cyfarfod wedi'i gynnal gyda CHC a gwasanaethau Nyrsio Ardal i drafod / datrys problemau wrth ryddhau i gartrefi gofal. Is-grŵp i'w sefydlu i fynd i'r afael â phryderon.

BETH YW'R HERIAU SYDD I DDOD?

- Mae'r galw am y gwasanaeth a chynhwysedd a gwyliau yn dal i gyfyngu ar lefelau ymgysylltu TACau gyda gweithgareddau'r rhaglen. Fodd bynnag, mae trefniadau cefnogi mewn lle ac mae Arweinwyr Proffesiynol yn parhau i gadw mewn cysylltiad ag Arweinwyr TAC a darparu cymorth a chefnogaeth yn ôl y gofyn.
- Recriwtio defnyddwyr gwasanaeth ar gyfer gweithdai cyd-gynhyrchu a chynulladau dinasyddion.

BETH NESAF?

- Parhau i weithio'n agos gyda Grant Thornton UK LLP ar newid dull gweithredu'r gwaith ymgysylltu hyd at mis Medi;
- Cwblhau'r archwiliadau achos eiddilwch Iechyd Meddwl a Phobl Hŷn;
- Bydd y gwaith o gyflwyno SIPPS a RBA yn cael ei wneud yn rhanbarthol gyda chefnogaeth Jo Flannery;
- Cynnydd gyda gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen ICAN/ Llyw-wyr Cymunedol gan gynnwys holiadur ar gyfer Darparwyr Presgripsiynau Cymdeithasol yng Nghonwy a Sir Ddinbych i fapio beth sydd ar gael. Creu cyswllt gyda'r Arolwg Cenedlaethol ar gyfer darparwyr Presgripsiynau Cymdeithasol a wneir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Cynnal cynnydd ar lefel leol ar draws pob llwybr D2RA sy'n effeithio ar reolaeth gyffredinol a gwella llif rhyddhau cleifion;
- Parhau i gydweithio â'r Timau Adnoddau Cymunedol a darparu cefnogaeth iddynt, gan gynnwys parhau â chyfarfodydd ar gyfer Grŵp Ffocws y TAC.

Am ragor o wybodaeth am y thema hon, cysylltwch â:

Margaret Peters ar 01492 575983 neu trwy e-bostio margaret.peters@conwy.gov.uk

DYCHWELYD I BEN Y DUDALEN

Timau Adnoddau Cymunedol

Datblygiad parhaus TAC yng Nghonwy a Sir Ddinbych

- Gwelwyd ymgysylltiad yn y meysydd allweddol canlynol:-
 - Mae'r Rheolwr Prosiect wedi ail-benodi'r Grŵp Ffocws TAC, mae'r grŵp wedi cyfarfod dwywaith ac mae agweddau penodol ar ddatblygiad TAC lle bydd angen cynhwysedd ychwanegol gan Arweinwyr Proffesiynol i wneud cynnydd.
- Blaenoriaethau sy'n mynnu trafodaethau a chytundeb pellach:
 - Cwblhau matrices aeddfedrwydd TAC i gynorthwyo cynlluniau gweithredu datblygu lleol;
 - Arolwg o ganlyniadau ansawdd / gwerthuso gwasanaeth di-dor ar y cyd ac adborth defnyddwyr;
 - Amlinelliad a chynigion ar gyfer sut y gallai'r tîm ar ddyletswydd weithredu, pa gefnogaeth sydd ei angen a sut y caiff ei adolygu;
 - Yn TACau Sir Ddinbych, ThG BIPBC i gomisiynu pecynnau gofal gan fod ThG CSDd yn gwneud hynny ar hyn o bryd;
 - Hyfforddiant ar gyfer gweithwyr ailalluogi gofal iechyd a gweithwyr cefnogi, gan ddefnyddio ethos a dull gweithredu ailalluogi a chysylltu gydag argymhellion gwaith Sgiliau ar gyfer lechyd o ran rôl Gweithwyr Cefnogi. Hyfforddi, sefydlu a lleoli;
 - Cydlynu cyfarfodydd datblygu busnes TAC (cais penodol gan Naomi);
 - Hyfforddiant amlddisgyblaeth yn cael ei gomisiynu ar gyfer aelodau TAC.
- Mae cymorth rheoli prosiectau yn dal i gael ei ddarparu i TACau unigol yn ôl yr angen;
- Mae Kelly Clewett wedi'i phenodi yn Arweinydd TAC newydd yn Ninbych.

Am ragor o wybodaeth am y thema hon, cysylltwch â:

Jacque Bickers ar 01492 575354 neu trwy e-bostio jacqueline.bickers@conwy.gov.uk

DYCHWELYD I BEN Y DUDALEN

Gweithlu Integredig

Strategaeth Gweithlu sy'n Seiliedig ar Gymhwysedd

Mae'r prosiect bellach wedi adrodd i Fwrdd y Rhaglen:

- Mae fframweithiau cymwyseddau wedi'u datblygu ar gyfer gweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Chydlynu Gofal integredig;
- Nodir bod angen cymorth ar uwch reolwyr i ddeall y camau nesaf o ran integreiddio a beth allai'r rhain ei olygu;
- Mae canfyddiadau'r prosiect yn cael eu hystyried yng ngham nesaf gwaith datblygu'r Ardaloedd Lleol.

Mae gweithredu gwaith datblygu'r gweithlu bellach yn cael ei ystyried.

Am ragor o wybodaeth am y thema hon, cysylltwch â:

Alan Hughes ar 01492 550403 neu 07525 168701 neu e-bostiwrch

alanhughes@ateiconsulting.com

DYCHWELYD I BEN Y DUDALEN